

## Poteli synhwyraidd

Yn hytrach na'u hailgylchu nhw, gwnewch ddefnydd o rai o'ch poteli plastig gwag.

### Byddwch angen:

- Poteli bach, gwag plastig - gwnewch yn siŵr eu bod yn lân
- Hylifau fel dŵr, olew babanod, lliw bwyd, paent
- Eitemau fel gleiniau, botymau, glitter, tywod, cerrig bach, ffoil

### Dull:

- Defnyddiwch yr eitemau uchod i lenwi'r poteli



# DYSGU DRWY CHWARAE - Poteli synhwyrdd

- Gofalwch fod y caeadau wedi'u cau'n dynn a seliwch nhw gyda thâp gludiog (a gwirio eu bod yn dal ar gau yn aml)

## Pam ddim?

- Defnyddiwch fotymau/gleiniau mewn dŵr ar gyfer lliw a symudiad neu heb y dŵr ar gyfer sŵn?
- Defnyddiwch ddarnau o ffoil tun i dal y golau?
- Defnyddiwch pom poms bach lliw fel ysgogiad gweledol ac i adnabod lliwiau?
- Defnyddiwch ddŵr lliw ac olew babanod i gymysgu a gwahanu hylifau?
- Defnyddiwch baent neu gliter ar gyfer lliw a diddordeb?

## Manteision y gweithgaredd hwn:

- Bydd yn annog dychymyg a chreadigrwydd eich plentyn



**RHYBUDD:**  
Mae angen goruchwyliaeth fanwl gyda darnau bach a dŵr!

